

Taliadau i Gynghorwyr

Panel Annibynnol Cymru
ar Gydnabyddiaeth Ariannol
Independent Remuneration
Panel for Wales

Os ydych yn ystyried sefyll mewn etholiad i fod yn gynghorydd, dyma wybodaeth am y taliadau y gallech eu derbyn.

Ydy cynghorwyr yn cael eu talu?

Ydyn. Mae gan holl aelodau etholedig awdurdodau lleol Cymru hawl i gael cyflog blynyddol sylfaenol, sydd wedi ei bennu yn £13,300 ar gyfer 2016-2017. Mae aelodau sydd â chyfrifoldebau ychwanegol, fel aelod gweithredol neu gadeirydd pwyllgor, yn derbyn cyflogau uwch. Mae treth incwm yn cael ei chodi ar y taliadau hyn. Mae treuliau rhesymol hefyd yn cael eu talu. Bydd manylion y taliadau sy'n cael eu gwneud i aelodau unigol yn cael eu cyhoeddi gan yr awdurdod lleol bob blwyddyn. Mae lefelau'r taliadau i'w gweld yn Adroddiad Blynyddol y Panel. Dilynwch y ddolen isod.

Oes cefnogaeth arbennig ar gael?

Oes. O dan ddeddfwriaeth mae'n rhaid i awdurdodau ddarparu ar gyfer aelodau ag anghenion cymorth penodol i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau fel cynghorwyr. O dan y Lwfans Gofal, gall aelodau etholedig hefyd hawlio am gostau sy'n cael eu hysgwyddo i ddarparu gofal i ddibynyddion pan fyddant yn ymgymryd â'u dyletswyddau.

Oes rhaid i gynghorydd dderbyn taliadau?

Nac oes. Gall cynghorwyr wrthod y taliad, neu ran ohono drwy ysgrifennu'n bersonol ac yn unigol at y swyddog priodol yn eu hawdurdod lleol ar unrhyw adeg yn ystod eu hamser yn y swydd.

Pam mae cynghorwyr yn derbyn taliadau?

Mae bod yn gynghorydd yn rôl feichus a phrysur. Dylai pawb fod yn rhydd ac wedi'u galluogi i gymryd rhan weithredol mewn democratiaeth leol, beth bynnag yw eu hoedran, rhyw, incwm, anabledd neu gyfrifoldebau teuluol. Mae caniatáu i gynrychiolaeth eang ac amrywiol o bobl fod yn gynghorwyr yn sicrhau bod awdurdodau lleol yn fwy cynrychioliadol o'r boblogaeth. Mae lefel resymol o daliadau yn galluogi unrhyw un i gymryd rhan.

Pwy sy'n pennu'r taliadau?

Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yw'r corff sy'n pennu lefelau'r taliadau gall aelodau awdurdodau lleol Cymru eu hawlio – o aelodau cyffredin i arweinwyr y cynghorau. Mae'r Panel hefyd yn penderfynu ar lefel y taliadau i aelodau Awdurdodau Tân ac Achub, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a chynghorau tref a chymuned yng Nghymru.

Eisiau mwy o wybodaeth?

Mae manylion pellach ar gael ar wefan y Panel lle gallwch ddarllen yr Adroddiad Blynyddol sy'n cael ei gyhoeddi bob mis Chwefror yn dilyn ymgynghoriad. Mae adran cwestiynau cyffredin hefyd i'w gweld ar y wefan.

<http://llyw.cymru/irpwsb/home/?skip=1&lang=cy>